

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (O'R PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2023

**YN BRESENNOL:** Aelodau Annibynnol

Mr John R Jones (Cadeirydd)  
Dr T Rhys Davies (Is-gadeirydd)

### Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned

Cyngor Cymuned – Margaret Thomas

**HEFYD YN  
BRESENNOL:**

Cyngor Cymuned – Iorwerth Roberts

**WRTH LAW:**

Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY),  
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

### 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### 3 CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod cais am ganiatâd arbennig yn cael ei wneud gan y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran er mwyn ei alluogi i gymryd rhan, yn ei gapasiti fel Cadeirydd y Cyngor Cymuned, mewn perthynas â mater cynhennus a oedd i'w drafod gan y Cyngor Cymuned.

Ar ôl clywed cefndir y cais am ganiatâd arbennig gan yr ymgeisydd, cynhaliodd y Panel sesiwn breifat er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio ac os y byddai caniatâd arbennig yn cael ei roi, ystyried (i) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig a (ii) a oedd unrhyw gyfyngiadau/ amodau yn cael eu gosod.

**PENDERFYNWYD rhoi caniatâd arbennig rhannol i'r Cynghorydd Iorwerth Roberts yn ei gapasiti fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran o ran y buddiannau y cyfeiriwyd atynt yn y cais. Mae'r caniatâd arbennig rhannol yn caniatáu'r Cynghorydd i:-**

- Ysgrifennu at Swyddogion a'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r mater;
- Siarad â Swyddogion y Cyngor Cymuned am y mater, heb unrhyw amodau;
- Siarad mewn Cyfarfodydd Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
- Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth a/neu bleidlais ar y mater;
- Os yn berthnasol, cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd gydag unrhyw gyrff allanol yn ei gapasiti fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran.

**Nid yw'r caniatâd arbennig rhannol yn caniatáu'r Cynghorydd i bleidleisio ar y mater.**

Rhoddir y caniatâd arbennig ar y sail statudol bod natur diddordeb yr Aelod yn un lle na fyddai hyder y cyhoedd yn cael ei niweidio yn y ffordd y mae busnes y Cyngor yn cael ei gyflawni o ganlyniad i'r Aelod yn cymryd rhan; mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a nifer sylweddol o'r cyhoedd; mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr Aelod (fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran); ac mae'n ymddangos i'r Pwyllgor Safonau ei fod o ddiddordeb i drigolion yr ardal a'r Cyngor y dylai'r anallu gael ei ddiddymu.

**Gweithredoedd:**

- Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at y Cynghorydd Roberts yn cadarnhau bod Panel y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig rhannol iddo sy'n ei ganiatáu i ysgrifennu, siarad ond nid pleidleisio ar yr holl faterion yn ymwneud â'r mater hwn.
- Rhaid i'r Cynghorydd Roberts ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu wrth fynychu'r Cyngor Cymuned ac unrhyw gyfarfod perthnasol arall gan nodi ei fod wedi cael caniatâd arbennig rhannol gan y Pwyllgor Safonau i allu cymryd rhan ond nid pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:05 pm

**MR JOHN R JONES  
CADEIRYDD**